

**CYFARFOD RHIF 8 CADEIRYDDION GRWPFAU PARTNERIAETH
BIOAMRYWIAETH CYMRU – CAMAU GWEITHREDU
20 TACHWEDD 2012, SWYDDFEYDD CYNGOR SIR CEREDIGION,
ABERYSTWYTH**

Yn bresennol: Matthew Quinn (Cadeirydd), Llywodraeth Cymru; Caryn Le Roux, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig; Peter Dennis, Cadeirydd Grŵp Ecosystem yr Ucheldir; Helen Buckingham, Cadeirydd Grŵp Ecosystem Gweundir a Glaswelltir yr Iseldir; Jan Sherry, Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystem Ardaloedd Trefol a Thir Llwyd; Celia Thomas, Cynrychiolydd y Grŵp Ecosystem Coetiroedd; Peter Jones, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Gwlyptiroedd; Cynrychiolydd Grŵp Canlyniad 21; Tracey Lovering, Cydlynnydd Cadeiryddion/Ymgynghorydd Ecosystemau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru; Jill Bell a Paul Brazier, Cyd-gadeiryddion y Grŵp Ecosystem Forol; Tristan Hatton-Ellis, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Dŵr Croyw; Peter Rhind, Cadeirydd y Grŵp Ecosystem Arfordirol; Stephen Bladwell, Cadeirydd y Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau; Dave Thomas, Cadeirydd y Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Ymddiheuriadau: Pete Charleston, y Grŵp Gorfodi Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt.

Rhif	Pwy/Cam gweithredu	Pwy	Erbyn
1	Pob Cadeirydd i gasglu sylwadau eu Grwpiau perthnasol ynghylch Papur (03) Grŵp Llywio 18 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Mabwysiadu Fframwaith Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru ¹ http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Cyfarfodydd-y-Grp-Llywio a'u hanfon at Tracey Lovering	Pob Cadeirydd	14 Rhagfyr 2012
2	Tracey Lovering i gasglu sylwadau o Gam Gweithredu 1 a'u cyflwyno ar ffurf ymateb Grwpiau Cymru Gyfan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i John Watkins	TL	21 Rhagfyr 2012
3	Pob Cadeirydd i rannu adborth ynghylch y tabl bylchau mewn tystiolaeth ² â'u Grwpiau perthnasol trwy e-bost, a gwneud y canlynol: 1) rhoi sylw i unrhyw sylwadau a ddarperir, 2) adnabod y bylchau mewn tystiolaeth a ddylai gael blaenoriaeth , trwy ymgynghori â'u Grŵp, a thynnu sylw at y bylchau yn y tabl bylchau mewn tystiolaeth trwy eu nodi <u>mewn testun coch</u> , 3) cytuno ar yr arweinydd prosiectau ymchwil, o blith aelodau'r Grŵp, ar gyfer pob bwllch mewn tystiolaeth a ddylai gael blaenoriaeth (<i>os gellir llenwi'r bwllch hwnnw drwy brosiect(au) ymchwil</i>). Yr arweinydd i gyflwyno ffurflen Cynnig ynghylch Prosiect ³ wedi'i chwblhau i Tracey Lovering ⁴ ar gyfer pob prosiect ymchwil	Pob Cadeirydd	20 Rhagfyr 2012
4	Tracey Lovering i anfon dolen gyswllt ar gyfer Offeryn Cynllunio Gweithdai Mapio Blaenoriaethau at bob Cadeirydd. Bydd y Cadeiryddion yn sicrhau bod y Grwpiau yn ychwanegu gweithdai sydd ar ddod a chamau	TL	30 Tachwedd 2012

¹ Papur 03 Grŵp Llywio 18 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru - Fframwaith Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru <http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/Cyfarfodydd-y-Grp-Llywio>

² Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: Bylchau mewn tystiolaeth 2012 – sylwadau MB, RMcC, CW – mis Tachwedd 2012

³ Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru: Ffurflen Cynnig Prosiect Ymchwil

⁴ Darparwyd sylwadau gan Mike Bruford BrufordMW@cardiff.ac.uk, Rob McCall R.McCall@ccw.gov.uk a Clive Walmsley c.walmsley@ccw.gov.uk

	gweithredu o weithdai blaenorol (i'w cyflwyno i Sean McHugh) ⁵ . Stephen Bladwell a Sean McHugh i rannu'r offeryn cynllunio â'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau er mwyn hwyluso presenoldeb cynrychiolwyr y Grŵp hwnnw yn y digwyddiadau hyn.		
5	Pob Cadeirydd i anfon y wybodaeth ddiweddaraf gan y Grwpiau, a gyflwynwyd yng Nghyfarfod 8 y Cadeiryddion, at Tracey Lovering er mwyn iddi ei chynnwys ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ochr yn ochr ag agenda a chamau gweithredu'r cyfarfod perthnasol.	Pob Cadeirydd	7 Rhagfyr 2012
6	Mae angen i Adroddiadau Blynyddol ar Gynnydd Grwpiau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ddod i law erbyn Cyfarfod 19 ⁶ Grŵp Llywio'r Partneriaeth. Dylid eu hanfon at Tracey Lovering (ewch i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i weld adroddiadau'r llynedd er gwybodaeth ⁷). Nodwch y gallai'r wybodaeth ddiweddaraf gan y Grwpiau fod yn ddigonol, ond mae croeso i chi ymhelaethu os hoffech chi.	Pob Cadeirydd	21 Ionawr 2013
7	Yr holl Grwpiau Ecosystemau i ailystyried y meysydd a gafodd eu mapio o safbwynt camau gweithredu a gaiff flaenoriaeth a data cysylltiedig. Bydd angen i'r Cadeiryddion neu'r arweinydd dirprwyedig grynhoi unrhyw newidiadau, darparu mapiau terfynol ar sail System Wybodaeth Ddaearyddol, wedi'u diwygio a'u cwblhau, a darparu camau gweithredu cysylltiedig a'u rhoi i Jan Sherry.	Pob Cadeirydd	31 Mawrth 2013
8	Alys Edwards i anfon dolen gyswllt ar gyfer gwefan beilot y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth at y Cadeiryddion.	Alys Edwards	

Cyswllt: Tracey Lovering t.lovering@ccw.gov.uk

⁵ smchugh@wtwales.org

⁶ Grŵp Llywio 19 Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – 19 Chwefror 2013, Abertawe

⁷

<http://www.biodiversitywales.org.uk/content/uploads/documents/SG%20Meetings/SG13/WBP%20SG13%20Combined%20Files.pdf>